tafod elái

Rhif 1 Pris 20c Hydref 1985

Un o bob pump yn cael addysg Gymraeg

Roedd yr ail o Fedi yn ddyddiad pwysig yn hanes addysg Gymraeg yn Nhâf-Elái. Nid yn unig gwelwyd agor dwy ysgol gynradd Gymraeg newydd yma, ond agorwyd un ohonynt mewn adeilad newydd sbon danlli. Ysgol Gymraeg Y Beddau yw'r ysgol gynradd Gymraeg gyntaf erioed i gael cartref mewn adeiladau hollol newydd. Pwy ddywedodd nad yw gwyrthiau'n digwydd ar lannau Tâf ac Elái.....?

... parhad ar dudalen 3

. Plant ysgol Gymraeg newydd Mill Street, Pontypridd.

'RHAID I GLWB-Y-BONT LWYDDO'

"Cerddwn ymlaen" - dyna oedd penderfyniad unfrydol aelodau Clwb-y-bont ar Fedi 11 mewn cyfarfod arbennig i ystyried dyfodol y Clwb.

Galwyd y cyfarfod gan y pwyllgor oherwydd argyfwng ariannol, a achoswyd yn bennaf gan ddiffyg busnes yn ystod gwyliau'r hâf. Yn y ddau hâf blaenorol cafodd y ffaith fod llawer o aelodau'r Clwb i ffwrdd ar eu gwyliau ei liniaru gan fasnach amser cinio, pan oedd pobl yn mwynhau bwyd a llymaid yn yr haul y tu allan i'r Clwb.

Doedd yr haul na'r fasnach ddim yno eleni.
Ond pwysleisiodd y cadeirydd Keith Davies fod yna reswm dyfnach am y trafferthion ariannol.

"Yn anffodus dyw llawer o'r aelodau ddim hanner digon ffyddlon i'r Clwb drwy'r flwyddyn", meddai. "Mae'n rhaid i bobl wneud llawer mwy o ddefnydd o'r lle os yw'r Clwb i barhau".

Clywyd fod yr arian a gymrir dros y bar ar wythnos arferol rai cannoedd o bunnau yn fyr o'r hyn sydd ei angen i dalu cyflog y stiward a chostau eraill, a chlirio dyledion.

Roedd y cyfarfod yn benderfynol, serch hynny, fod yn rhaid cydweithio i sicrhau llwyddiant y Clwb, er budd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ardal Pontypridd. Clywyd fod 60 o ddysgwyr wedi cofrestru eleni ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg y Clwb. Cytunwyd i drefnu mwy o nosweithiau ar gyfer pobl ifanc a phlant ysgol - a sicrhawyd rhieni y bydd y rheini mewn stafell heb far!

Ymhlith y syniadau eraill, penderfynwyd ymgyrchu i gynyddu'r aelodaeth; addawyd y bydd rhai o'r aelodau'n darparu bwydydd mwy amrywiol ar rai achlysuron; sefydlwyd Cyfeillion Clwb-y-bont, a fydd yn talu arian i'r coffrau bob mis drwy orchymyn banc; ac apeliwyd am fwy o aelodau i'r Clwb 200.

Fel y dywedodd Keith Davies, "Pe bai Clwb-y-bont yn methu byddai'n ergyd drom i fywyd Cymraeg y cylch, ac yn siom ddirfawr i rai fu'n gweithio ers deng mlynedd a mwy i'w sefydlu. Fe gymrai flynyddoedd i neb fynd ati i geisio sefydlu canolfan fel hyn eto. Does dim dewis gyda ni felly ond gwneud i'r lle lwyddo.

PRYD O DAFOD

Cofiwch mai eich papur CHI yw hwn. Nid clic bach casgedig sy'n ei redeg, gan fod croeso i bawb gyfrannu iddo mewn unrhyw ffordd. Os digwydd i chi glywed am stori dda, os digwydd tro trwstan yn eich ardal, os gwyddoch am achlysur sydd i'w gynnal rhowch wybod inni. Arnoch chi y bydd y bai os nad yw'r papur yn adlewyrchu eich ardal chi.

Golygyddol

Bwriad y golofn hon bob mis fydd cymryd safbwynt caled a phendant ar bynciau sy'n berthnasol i fywydau darllenwyr y Tafod. Bydd hynny'n cynnwys safiad di-gyfaddawd dros fuddiannau'r iaith, cefnogaeth lwyr i fudiadau sy'n gweithredu er lles Cymru, amddiffyniad o hawliau trigolion Tâf-Elái ac anogaeth lawen i eglwysi Cristnogol y fro. Nid yw'n fwriad gennym i fod yn llaw-forwyn i unrhyw blaid wleidyddol. Y polisi am weddill y papur fydd yr hen ddihareb, "Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar", sy'n golygu nad yw'r Bwrdd Golygyddol o anghenraid yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegir y tu hwnt i'r golofn hon.

Un o nodweddion amlycaf y rhifyn cyntaf hwn yw'r pwyslais ar addysg ddwy-ieithog. Newyddion am yr ysgolion meithrin a chylchoedd mam-a'i-phlentyn sy'n britho colofnau'r pentrefi, ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn medru rhoi cymaint o sylw i agor dwy ysgol Gymraeg newydd yn yr ardal. Mae'n amlwg fod gennym le i lawenhau ac i longyfarch ein gilydd wrth i weddili Cymru ryfeddu at yr egni a'r brwdfrydedd sy'n rhoi anadl newydd i'r iaith yn ein plith. Un o bob pump bellach yn derbyn addysg gynradd ddwy-ieithog ym Morgannwg Ganol. Mae gennym chwe ysgol Gymraeg a phedair uned sy'n darparu addysg gynradd ddwy-ieithog yn Nhâf-Elái.

Ond gwae ni rhag bodloni ar y sefyllfa a gorffwys ar ein rhwyfau. Tra bo cynghorwyr Morgannwg Ganol yn morio'n hunan-foddhaus yn y clôd a'r canmol, gadewch inni atgoffa'n hunain mai un frwydr faith a llafurus fu hanes addysg ddwy-ieithog yn y sir hon.
Dim ond UN mudiad all hawlio clôd am y datblygiad hwn, a'r Mudiad Meithrin yw hwnnw. Y gwir amdani yw fod y Mudiad Meithrin yn dipyn o niwsans i Awdurdod Addysg Morgannwg Ganol, yn mynnu sefydlu cylch-oedd meithrin rif y gwlith led led y sir a thrwy hynny'n creu'r angen am ysgolion Cymraeg.

Manteisiwn ninnau ar y cyfle hwn i alw ar y Cyngor i ail-edrych ar yr unedau Cymraeg o fewn dalgylch y Tafod.

Gobaith y Tafod yw gweld yr unedau'n cael eu troi'n ysgolion Cymraeg, a gweld y Mudiad Meithrin yn mynd o nerth i nerth i fod yn ddraenen barhaus yn ystlys yr Awdurdod Addysg er mwyn sicrhau cynnydd pellach yn y galw am addysg Gymraeg.

Cyhoeddir Tafod-Elai gyda chymorth ariannol Cymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig.

Medal Clogau i Wil

Llongyfarchiadau i Gôr Godre'r Garth am ennill prif gystadleuaeth y corau cymysg yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y seithfed tro. Priodol yn wir oedd bod Medal Aur Clogau yn cael ei chyflwyno eleni i arweinydd y côr buddugol yn y gystadleuaeth hon, ac mai Wil Morus Jones aeth â hi.

Roedd hi'n gystadleuaeth wrth fodd y gynulleidfa brynhawn Llun y brifwyl, - cyngerdd o gystadleuaeth yn wir. Cafwyd hwyl arbennig ar y darnau hunanddewisiad gyda lle blaenllaw'n cael ei roi i weithiau cyfansoddwyr Cymreig. Cafodd Godre'r Garth ganmoliaeth arbennig am eu cyflwyniad o "Y Gymraeg" Gareth Glyn (geiriau Alan Llwyd).

Gallwn fel ardal ymfalchïo yn y ffaith bod dau allan o'r tri chôr cymysg a fentrodd i'r brif gystadleuaeth eleni yn dod o Dâf-Elái. Cafwyd perfformiad teilwng iawn gan Gantorion Greigiau hefyd ac enillodd iddynt feirniadaeth glodwiw a 259 o farciau. Côr cymysg Pwll-glas a'r Cylch ddaeth yn ail gyda 264 marc, a Godre'r Garth yn cipio'r wobr, a'r fedal o drwch blewyn gyda 265 o farciau.

WIL MORUS JONES ac arweinwyr Corau'r Creigiau a Phwll Glas

LLYTHYRAU

Un arwydd pendant o gyflwr unrhyw babur bro yw ansawdd ei golofn lythyrau. Mae casgliad bywiog o lythyrau pigog, cwynfanllyd, rhagfarnllyd, canmoliaethus, sebonllyd, anwybodus, di-enw neu wedi eu harwyddo yn hanfodol i barhâd y **Tafod**. Gwahoddir chi i anfon unrhyw ohebiaeth at:

Emlyn Davies,
"Sycharth",
87 Maes-y-Sarn, Pentyrch

LLWYDDIANT YN 'SYNI' (?) RHYL

Llongyfarchiadau i Ann Williams, dirprwy-arweinydd Côr Godre'r Garth, ar ddod yn ail yn yr Unawd Cerdd Dant gyda chanmoliaeth uchel. Hefyd i Menna Thomas, aelod arall o'r Côr a daeth yn drydydd ar yr Unawd Cân Werin.

Daeth dawnswyr Nantgarw yn ail yn y gystadleuaeth dawnsio gwerin ac hefyd cafwyd nifer o fuddugoliaethau unigol ymysg y dawnswyr. Roedd Andrew O'Niell yn gyntaf ar yr Unawd Cân Werin ac cf oedd yn arwain Côr y Ddinas yn y gystadleuath cerdd dant. Roedd Cliff Jones, athro yn Ysgol Pontsionnorton, yn gyntaf ar y Ddawns Unigol i ddynion ac yn gydradd gyntaf ar yr adrodd i gyfeiliant gyda Peter Davies yn cyfeilio ar y clarinet. Roedd triawd clocsio Cliff Jones, Ellis Griffiths a Graham Worley yn gydradd ail. Cafodd Hillary Griffiths y drydedd wobr yn y Ddawns Unigol i Ferched.

Ac yn y byd rhyngwladol bu Cantorion Creigiau yn llwyddiannus yng Ngŵyl Quimper, Llydaw, ac ennillodd Dawnswyr Nantgarw yng Ngŵyl Ryng-Geltaidd Killarney.

Cliff Jones, clocsiwr ac adroddwr.

. Plant Ysgol Gymraeg y Beddau yn eu hadeilad newydd.

Un o bob pump yn cael addysg Gymraeg

... o dudalen 1

Bydd llawer o ddarllenwyr y **Tafod** yn cofio ymgyrch hir rhieni Pontsionorton i gael ail ysgol Gymraeg i Bontypridd. Mae'r ffaith bod yr ysgol hon wedi ei hagor yn deyrnged i'r rhieni hynny a fu'n brwydro mor ddygn.

Efallai nad yw plant Pontypridd lawn mor ffodus â phlant Y Beddau yn eu hadeiladau. Llawr gwaelod hen adeilad ysgol uwchradd sy'n cael ei ddefnyddio, ond yn ôl Mrs. Davies bu'r gweithwyr wrthi'n ddiwyd drwy gydol yr hâf yn addasu a pharatoi'r adeilad, a bellach mae'r celfi a'r offer hefyd wedi cyrraedd.

Fel y gwelwch oddi wrth y llun, mae gan blant Pontypridd hefyd eu gwisg ysgol. Welwch chi mo'r lliwiau, ond sgert a chardigan lwyd a blows goch sydd gan y merched, a throwsus llwyd, crys llwyd a thei coch sydd gan y bechgyn.

A gafwyd enwau swyddogol i'r ddwy ysgol eto? Wel, naddo, - rhaid aros i'r byrddau rheoli gael eu sefydlu, - nhw fydd yn dewis yr enwau. Gobeithio na chant gymaint o drafferth a bwrdd golygyddol y **Tafod**!

Beth bynnag am hynny, mae un o bob pump o blant cynradd Tâf Elái erbyn hyn yn cael addysg Gymraeg.

Catherine Edwards, prifathrawes Ysgol Gymraeg y Beddau

Mair Davies, prifathrawes Mill Street

AMGYLCHFYD

gan Tom Dom

CURYLL COCH

Yn ddiweddar gwelwyd llawer curyll coch yn hofran uwch ben cloddiau traffyrdd yr ardal. Cymeryd mantais maen nhw o'r warchodfa natur sydd wedi datblygu'n hollol ddamweiniol yn y glaswellt a'r coed a blannwyd wrth ochr yr heolydd. Mae'n debyg mai dyma'r lle delfrydol nawr i anifeiliaid megis Llyg, Llygod Coch a Llygod y Maes i ymgartrefu. Hefyd yma ceir llonydd i adar bach fel Llwyd y Berth a'r Ji binc i nythu heb i neb aflonyddu arnynt. Yn eu sgil daw'r heliwr bofrenyddol ysglyfaethus i daro ar eu heddwch; fel saeth craf-angol yng nghanol bwrlwm traf-nidiaeth.

ARGYFWNG I ADAR

Ar lechweddau Mynydd Eglwys Llan hyd at yn ddiweddar, cafwyd llawer math o adar mudol yn bwrw'r hâf a magu eu hil. Yma y daeth y Gynffonwen, Yswidw'r Gwern a Phibydd y Waun gyda'u lliwiau llachar a'u swynol leisiau. Ac eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd gwelwyd Clochdar y Garreg yn yr ardal. Ond brawychus oedd gweld fod y ffermwr wedi aredig y tir lle'u magwyd i hyrwyddo cig oen y Farchnad Gyffredin. Lle tybed caiff adar Cymru nyth y flwyddyn nesaf?

Os oes gennych chi stori neu fraslun diddorol am yr amgylchfyd anfonwch eich cyfraniad at Tom Dom yng ngofal y Golygydd.



LLYTHYR

oddiwrth y Cyng.
John Francis, Pontyclun.

Gwelais beth doniol iawn yn yr ardd yn ddiweddar. Roeddwn wedi dodi bara mas i fwydo adar, a dyna lle roedden nhw i gyd. Ond yn sydyn dyma nhw i gyd yn sgathru i ffwrdd wrth i Lygoden Ffrengig gropian rownd y gornel a dechrau bwyta bwyd yr adar. Trueni nad oedd gennyf gamera i dynnu llun yr adar yn ymosod ar y llygoden a honno ar ei ddwy thr·ed ôl yn bocsio fel kangaroo ac yn anelu ambell i "right hook" at yr adar cecrus.

Celtic Connection

Y CWMNI BYSIAU SY'N ADNABOD CYMRU

ARBENIGWYR MEWN TEITHIAU I GRWPIAU

CHWARAEON, ADDYSGIADOL, CERDDOROL A HAMDDEN

Bysiau 49 sedd Moethus

Cyfleusterau Fideo, Diodydd, Toiled, Oergell

HEFYD BYSIAU 12, 16, 21, 35, 49, A 53 SEDD

AR GAEL AM BOB ACHLYSUR

PONTYPRIDD 409966
CASNEWYDD 51917
MERTHYR 74265

Ail agor capel Pobl y Cwm

Bydd dydd Sul, Hydref 13eg yn ddiwrnod i'w gofio ym mhentref Efail Isaf. Dyma pryd yr ail agorir Capel y Tabernacl ar ôl yr holl atgyweirio a fu ar yr adeilad yn ddiweddar. Mae'n siwr eich bod chi wedi sylwi ar y sgaffoldiau a'r ysgolion a fu'n glynu wrth y waliau ers misoedd, ac mae'r cyfan bellach ar ben, a'r capel yn werth ei weld ar ei newydd wedd. Mae'r adeilad yn adnabyddus led-led Cymru fel y capel a ddefnyddir yn y gyfres boblogaidd "Pobl y Cwm" ar S4C.

Yn nhafarn y Carpenters y dechreuwyd yr achos ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf a bu'n rhaid aros tan 1843 cyn cael adeilad pwrpasol. Adeiladwyd capel newydd yn 1870. Erbyn diwedd y chwedegau roedd yr achos yn gwegian ac nid oedd gan y llond dwrn o aelodau lawer o galon i ddathlu'r canmlwyddiant pan ddaeth hwnnw yn 1970.

Ond daeth tro ar fyd. Pan oedd y sefyllfa ar ei duaf, a'r Ysgol Sul Gymraeg wedi chwythu'i phlwc, daeth nifer o Gymry ifanc blaengar a brwdfrydig i'r adwy a chodi'r achos yn ôl ar ei draed. Etholwyd Y Parchedig D. Eirian Rees, B.A.,B.D. yn weinidog anrhydeddus a bu wrth y llyw ers hynny.

Erbyn heddiw, mae aelodaeth y Tabernacl tua 150 a rhywle'n agos i 100 o blant ar lyfrau'r Ysgol Sul. Yn ddiweddar, penderfynwyd gwario bron i £25,000 ar atgyweirio'r adeilad.

Cynhelir oedfa arbennig i ail-agor y capel am 10.30a.m. ar Hydref 13eg. Yn ystod yr oedfa derbynir nifer o aelodau newydd a bydd tri phlentyn yn cael eu bedyddio.

Arwyn, mab Sylvia a Gareth Davies, y Creigiau, Cerian, merch Heulwen a Dewi Hughes, Crown Hill, a Ioan Rhys, mab Ann ac Emlyn Davies, Pentyrch.

Bydd Cymanfa'r Plant yn dilyn am 2.30p.m. a Chymanfa'r **Tafod** am 8p.m. Cynhelir hon ar y cŷd rhwng y capel a **Tafod-Elái,** i ddathlu ail agor yr adeilad a lansio'r papur bro. Yr arweinydd fydd un o gymwynaswyr yr ardal hon, a chyn-ddiacon yn Y Tabernacl, sef Edward Morris Jones.

Disgwylir y bydd nifer o gynaelodau yn awyddus i ddychwelyd i'r ardal i ymuno yn y dathlu, a threfnir llety ar eu cyfer yn rhad ac am ddim.

Cofiwch am gyfarfod blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin a gynhelir yng Nghanolfan Chwaraeon y Rhondda, Ystrad, ddydd Sadwrn, Hydref 12.

Pob Hwyl i'r Papur

Dennis Watkins

O P T E G Y D D

14, Stryd y Farchnad,

PONTYPRIDD
Ffon: 407937

DIWRNOD O DDATHLU

Dydd Sul, Hydref 13eg
ar achlysur ail-agor

CAPEL TABERNACL

Efail Isaf

10.30am	Oedfa Arbennig, a gwasanaeth ail agor.
2.30pm	Gymanfa'r Plant
8.00pm	Gymanfa'r Tafod (ar y cyd gyda Tafod Elai)

DEWCH YN LLU

Am ragor o fanylion cysyllter a'r gweinidog anrhydeddus:
Y Parchedig D. Eirian Rees.
Ffon: Newtown Llantwit 202873

TONTEG

Gohebydd lleol: Sian Jones

Ein dymuniadau gorau i Ewan, Heulwen, Heledd a Rhian Tomos, Y Dell, Tonteg a symudodd o'r ardal ym mis Gorffennaf. Pob lwc iddynt yn eu cartref newydd yn Llangynnwr, Caerfyrddin.

ARWERTHIANT DILLAD

Cynhelir arwerthiant dillad yn festri Salem, Tonteg nos Fercher, Medi 25ain o 7 tan 9 o'r gloch. Tocynnau 50c, a'r elw at gronfa atgyweirio'r capel.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Elizabeth a Martin West, The Ridings, Tonteg, ar enedigaeth eu mab, Rhydian Wyn, ddydd Gwener, Awst 30ain yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg, Pentre'r Eglwys.

CYLCH MEITHRIN

Cynhelir dwy Ysgol Feithrin yn y cylch, y naill yn festri Salem, Tonteg bob bore o 9.30 - 11.30, a'r llall yn Neuadd y Pentref, Pentre'r Eglwys o 9 - 11 bob bore.

CYLCH MAM A'I PHLENTYN

Cynhelir Cylch Mam a'i phlentyn yn festri Salem, Tonteg bob prynhawn Mercher am 2.15p.m. Croeso cynnes i'r Cymry a'r dysgwyr.

MARWOLAETH

Yn sydyn iawn ar Awst 6ed, 1985 bu farw Mrs. Nan Thomas, 5 Heol Nant, Pentre'r Eglwys, gwraig y diweddar Barchedig Ceredig Thomas, cyn weinidog Salem, Tonteg. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu.

SALEM, TONTEG

Cynhelir Swper Diolchgarwch yn festri Salem nos Wener Hydref 18fed. Tocynnau £2. Cynhelir cyfarfodydd Diolchgarwch yn Salem ddydd Sul, Hydref 20fed. Ceir oedfa Gymraeg yn y bore am 10.30 a.m. ac oedfa Saesneg yn yr hwyr am 6p.m.

Mae'r Tafod ar gael drwy'r post: £5 y flwyddyn. Cysylltwch â'r trefnydd dosbarthu.

PORTREAD Y MIS

Brenhines y Tabernacl

Fel "Anti Vi" y cafodd Mrs. Elvira Davies ei chyfarch gan genedlaethau o blant yr Efail Isaf ac "Anti Vi" yw hi o hyd i bawb sy'n ei hadnabod. Ddeufis yn ôl, roedd yn dathlu'i phenblwydd yn ddeg a phedwar ugain oed, a daeth y cenlli o gardiau a blodau fel prawf pendant o'i phoblogrwydd a'r parch sydd iddi ymhlith ei chydnabod.

"Fuoch chi dros y mor erioed, Anti Vi?" gofynnais iddi'n ddigon diniwed. "Do, siwr. Yn Weston-Super-Mare!" atebodd, a'r direidi'n pefrio yn ei llygaid. Deuddeg oed oedd hi pan alwyd arni i gyfeilio yng Nghapel y Tabernacl am y tro cyntaf. Bu wrth yr organ am ymron i bedwar ugain mlynedd, a deil i gyfeilio yn ystod y gwasanaethau o dro i dro, er fod y cryd-cymalau yn gwneud yr orchwyl yn anos erbyn hyn. Y llynedd, derbyniodd fedal Mrs. Doris Bevan Evans am ei ffyddlondeb, ei gwasanaeth hir a'i theyrngarwch diflino i'r Ysgol Sul. Go brin fod yr un anrhydedd erioed wedi bod yn fwy teilwng.

Yn Efail Isaf y'i ganed, ac yno yr arhosodd drwy gydol ei hoes. Mae ganddi atgofion byw am y Tabernacl dan ei sang yng ngwres Diwygiad '04, a channoedd o addolwyr wedi eu tanio gan rym yr Ysbryd Glân

Ond nid o gwmpas y capel yn unig y bu ei bywyd yn troi. Hi oedd yn cyfeilio i Gôr Plant Efail Isaf mor bell yn ôl â'r Rhyfel Byd Cyntaf a bu hefyd yn rhedeg ei band ei hun mewn dawnsfeydd yn Neuadd Tonteg. Yn nhafarn y Carpenters y dysgodd chwarae'r piano. Mae'n cofio'r car cyntaf yn cyrraedd Efail Isaf. Roedd hwnnw'n perthyn i David Rowlands, ysgrifennydd y capel ar y pryd. Yn fuan wedyn daeth car arall i'r pentref, yn eiddo i Margaret Rosser, sef Megan Illtud, un o sylfaenwyr Ysgol Garth Olwg; hithau hefyd yn organyddes yn y capel.

Glöwr oedd gŵr Anti Vi, ond cefnodd ar y pyllau glo i fod yn arddwr Roedd ganddynt dri o feibion, ac mae Anti Vi bellach yn famgu i bedwar a chanddi saith o or-wyrion. Eithriad cwbl anarferol fydd i Anti Vi golli unrhyw wasanaeth yn y Tabernacl. Mae'n ymdaflu i fywyd yr eglwys gyda'r brwdfrydedd mwyaf, a phawb yn meddwl y byd ohoni. Cymeriad annwyl, cynnes yn serchus ei sgwrs a pharod ei chymwynas. Wedi cyfnod mor faith o gyfeilio yn y capel, mae'n adnabod y llyfr emynau o'r dechrau i'r diwedd. Ac eto, does ganddi ddim hoff emyn, meddai hi. Ond mae wrth ei bodd gyda'r emynau a'r tonau newydd sy'n dod i fri yn y Tabernacl yn enwedig felly yr emynau yn "Iddo Ef" lle bydd y plant yn dawnsio a gwneud symudiadau i gydfynd â'r geiriau. "Mae digon o fynd yn y rheiny" meddai Anti Vi. Ac fe fyddai hi'n deall peth felly. Fe ddywedai ei chydnabod fod digon o fynd ynddi hithau hefyd.

PWY YW PWY

Dyma enwau a rhifau ffôn aelodau Bwrdd Golygyddol **Tafod-Elái.** Cofiwch gysylltu â nhw os oes gennych unrhyw sylw i'w wneud neu unrhyw beth i'w gynnig.

Cadeirydd/Golygydd Cyffredinol:
Emlyn Davies, Pentyrch 891344

Golygydd Newyddion:
Glenys M. Roberts, Llantrisant 228196

Golygydd Erthyglau:
Anna Jones, Pontypridd 404697

Golygydd Chwaraeon:
Geraint Hughes, Llantrisant 224743

Golygydd Iluniau:
David Penny Jones, Pontypridd 408623

Golygydd Technegol:
Ioan Roberts, Pontypridd 407262

Trefnydd Cyhoeddusrwydd:
Colin Williams, Pentyrch 890979

Dylunydd:
Mostyn Davies, Pontypridd 404440

Trefnydd Dosbarthu:
Rhys Llewelyn, Newtown Llantwit 207077

Trefnydd Busnes:
Bryn Roberts, Newtown Llantwit 208211

Ysgrifennydd a Trefnydd Hysbysebion:
Penri Williams, Pentyrch 890040

YSGOL GARTHOLWG

Croeso mawr i Mr. Elwyn Hughes i'w swydd fel prifathro newydd Ysgol Gymraeg Gartholwg. Brodor o Lanfairpwll, Ynys Mon, yw Mr. Hughes, ond bu'n byw yn y De ers un mlynedd ar hugain bellach. Symudodd i Ysgol Gartholwg o Ysgol Pontshonorton, lle roedd yn ddirprwy brifathro.

Dymchwel Fflatiau Gwaun Rhydd

Daeth y ffraeo a'r dadlau ynglŷn â fflatiau Gwaun Rhydd yn y Beddau i ben ganol Medi, pan symudodd y teirw dur i mewn i'w dymchwel i'r llawr.

Enillodd y fflatiau wobr am eu pensaernïaeth pan y'u codwyd gyntaf yn y saithdegau, ond dirywiodd eu cyflwr yn gyflym oherwydd gwlybaniaeth, nes gorfodi'r Cyngor lleol i ail-gartrefu'r tenantiaid. Byth ers eu gwacáu buont yn ddolur i'r llygad ac yn atyniad i fandaliaid.

. Fflatiau Gwaunrhydd ....yn eu gogoniant (uchod) a'u gwarth.

NEWYDDION O'R CYNGHORAU

● **Mae Is-Bwyllgor Cyllid a Datblygiad Cyngor Sir Morgannwg Ganol wedi hysbysu Cyngor Sir Gwent na ellir derbyn rhagor o blant Gwent i ysgolion dwyieithog Morgannwg Ganol ar ôl diwedd Awst 1987.**

● **Bydd plant ysgolion Morgannwg Ganol yn cael cyfle i gyfrannu bwyd tuag at gynllun "Schools for Africa" Band Aid. Gofynnwyd i'r Cyngor Sir gefnogi'r fenter trwy brynu sachau i ddal pacedi o flawd cyflawn, siwgr, neu bys wedi'u sychu. Y gobaith yw y bydd ychwanegu un o'r eitemau hyn at restr siopa pob teulu yn help i achub miloedd o fywydau.**

● **Gwrthododd Is-Bwyllgor Cyllid a Datblygiad Cyngor Sir Morgannwg Ganol gais gan Urdd Gobaith Cymru am gymhorthdal tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd eleni. Polisi'r is-bwyllgor yw cyfrannu'n unig pan gynhelir yr Eisteddfod o fewn ffiniau Morgannwg Ganol.**
Penderfynodd yr un pwyllgor gyfrannu £350 tuag at Wythnos Wyddoniaeth 1985, Coleg Brifysgol Caerdydd, ... a gynhelir yn Theatr Sherman.

● **Derbyniodd Swyddog Cynllunio Morgannwg Ganol 168 gwrthwynebiad i wahanol rannau o Gynllun Lleol Llantrisant. O ystyried nifer y gwrthwynebiadau, teimla'n bur sicr y bydd yn rhaid cynnal ymchwiliad cyhoeddus maes o law.**

AR WERTH

Maxi 1500 T Reg
M.O.T. Newydd.
Wedi'i drethu.
Cyflwr da. £795 n.c.a.

Ffôn- 935/205862

PENTYRCH

Gohebydd lleol: Ann Dwynwen Davies - Pentyrch 891344

Byddwn yn falch o glywed oddi wrth unrhyw un sydd am gynnwys cyhoeddiad, hysbysiad neu newyddion yn **Y Tafod.**

YSGOL FEITHRIN BRONLLWYN

Mae Mrs. Gill Rees wedi rhoi'r gorau i'r Ysgol Feithrin ar ôl cyfnod hynod o lwyddiannus wrth y llyw. Dymuna'r pwyllgor a'r rhieni ddiolch o galon iddi am ei llafur a'i hafiaith; pob hwyl iddi yn ei swydd newydd.

TYMOR NEWYDD

Eleni, mae tair athrawes yn rhannu'r wythnos: Mrs. Morwen Edwards, Mrs. Diane Davies a Mrs. Iola Humphreys. Mae nifer y plant ar y gofrestr yn cadw'n gyson er eu bod, wrth reswm, yn colli rhai i'r Ysgol Gynradd yn Y Creigiau bob mis Medi. Cynhelir yr ysgol rhwng 9.15 a 11.45, bum bore'r wythnos, yn ystod tymor ysgol.

DYMUNIADAU GORAU Da clywed fod Sara, merch fach ddwy oed Mike a Shan Pickard, Bryn yr Eglwys, wedi cael triniaeth lwyddiannus i'w chalon yn Ysbyty Hammersmith, Llundain.

CLWB Y DWRLYN Cafwyd agoriad hwyliog iawn i'r tymor, Nos Iau Medi 19eg yn y Clwb Rygbi ym Mhentyrch yng nghwmni Telynores Llwchwr, Phil Harries, a Cliff y clocsiwr. Er mor ddifyr a dawnus eu perfformiadau, rhaid cyfaddef mai uchafbwynt y noson oedd gwylio glewion y Dwrlyn, chwech ohonynt, yn perfformio Dawns y Glocsen at ddiwedd y noson. Does dim rhaid i Cliff ofni unrhyw gystadleuaeth o'r cyfeiriad yna!

CODI CWESTIWN

Bu HTV yn darlledu'n fyw ar gyfer S4C o Neuadd Bentref Pentyrch, Nos Wener, Medi 13eg. Bu'r tri panelwr, Dr. Dafydd Huws, Mrs. Eirlys Pritchard Jones a Mr. Gwynoro Jones yn trafod amrywiaeth o gwestiynau gan drigolion yr ardal.

Beth hoffech chi ei weld yn eich

SHAN PICKARD, PENTYRCH

Fel mam i blentyn ifanc sydd wedi symud yn ddiweddar i ardal newydd i fyw, rwy'n croesawu'n gynnes ddyfodiad **Tafod Elái**. Fy ngobaith yw y bydd yn profi i fod yn ffordd o ddod i gysylltiad â gweithgareddau Cymraeg mewn ardal newydd ac yn gyfle i gyfarfod â chriw newydd o Gymry, ac ar yr un pryd yn cadw cysylltiad a hen ffrindie.

Wedi gorffen gweithio ers tua dwy flynedd, rwy'n gweld eisie'r sgwrs dros goffi neu ginio gyda chydweithwyr a'r cyfnewid clecs dros beint yn y bar, a 'ngobaith yw y bydd **Tafod Elái** fel ffrind newydd yn casglu a dosbarthu'r straeon a'r clecs y byddwn i fel arall yn eu colli!

Gobeithio hefyd y daw cyfle i wyntyllu barn ar unrhyw bwnc sy'n ein corddi boed yn ymwneud â phynciau lleol neu ar gynfas ehangach - cyfle, efallai na chewn ni gan ein papurau cenedlaethol. Beth bynnag, unwn i wneud y papur yn deilwng o'n bro a'n pobol **Hir oes i Dafod Elai.**

BRYN ROBERTS TONTEG

Ar ôl clywed yn ddiweddar bod 25% o blant Tâf-Elái yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion Cymraeg teimlaf ein bod ar drothwy chwyldro Cymraeg yn yr ardal. Mae angen cyfrwng i ddod â Chymry Cymraeg yr ardal yma at ei gilydd i wireddu'r chwyldro. **Tafod-Elái** imi fydd y cyfrwng hwnnw. Dylai cymdeithasau ddefnyddio'r papur i hysbysebu digwyddiadau, i wneud yn siwr nad oes noson gymdeithasol fawr yn Llantrisant, er enghraifft, yr un noson a grŵp Cymraeg yng Nghlwb y Bont. Mae **Tafod-Elái** yn gyfle i Gymry-Cymraeg ddod i adnabod ei gilydd. Bydd yn hwb i ddysgwyr ddod yn rhugl ac i ni "bobl-ddwad" ddod i adnabod mwy ar Tâf-Elái trwy lygaid brodorion yr ardal.

Bydd hefyd, gobeithio, yn cadw ddiddordeb yn y Gymraeg mewn cartrefi lle mae ond y gŵr neu'r wraig yn siarad Cymraeg ac yn symbyliad iddynt ddanfon eu plant i Ysgolion Meithrin Cymraeg i ni gael gweld y 25% yn codi yn uwch ac yn uwch.

MARI JONES
PRIF DDYSGYBL RHYDFELEN

Da oedd gennyf glywed fod y gymdeithas Gymraeg yn nyffryn Tâf Elái'n ffynnu digon i warantu sefydlu papur bro a gobeithiaf y bydd ei lwyddiant yn symbylu cyhoeddiadau tebyg ym mröydd eraill ein gwlad.

Ni ellir gorbwysleisio swyddogaeth y papur bro o fewn ei gynefin - ffynhonnell ydyw o wybodaeth a newyddion lleol na cheir yn un o'r papurau cenedlaethol ac er fod llu o gyhoeddiadau tebyg yn yr iaith fain, hyderaf fod sefydlu y papur Cymraeg hwn yn codi calon nifer o Gymry cwm Tâf Elái.

Delfrydol fyddai gweld y papur hwn yn cynnig amrywiaeth o erthyglau ar gyfer pobl o bob oedran, yn blant ac yn oedolion er mwyn denu cynifer o ddarllenwyr â phosib o bob cwr o'r cwm.

Llongyfarchiadau eto ar y fenter a dymunaf bob llwyddiant iddi hi yn y dyfodol.

MARGARET CALVERT, LLANTRISANT

Balch iawn a dweud y lleiaf, oeddwn o glywed fod papur bro i'w gyhoeddi yn yr ardal Tâf Elái. Ond pan ofynnwyd i mi ysgrifennu pwt nid oeddwn wedi meddwl llawer am ei gynnwys; roeddwn yn reit fodlon gadael y gwaith yma i'r criw gweithgar a diwyd sy'n ei baratoi.

Cynnwys beth, felly? Wel, tipyn o bopeth a rhywbeth at ddant pawb gobeithio: newyddion yr ardal, chwaraeon, tudalen i'r plant, llythyrau at y golygydd, barn ar bynciau llosg y dydd ac wrth gwrs colofn ar gyfer y dysgwyr, ac yn y blaen. Peidied neb ag eistedd yn ôl a gadael i'r criw golygyddol wneud y gwaith i gyd.

Gobeithio y bydd **Tafod Elái** felly yn adlewyrchu bywyd Cymraeg yr ardal ac yn ein cyffroi ni i gyd.

Mae croeso mawr i'r rhifyn cynta yma, ac edrychaf ymlaen at ddarllen y rhai dilynol.

papur bro?

Y PARCHEDIG EIRIAN REES, EFAIL ISAF

Mae'r papur hwn yn garreg filltir bwysig arall yn hanes adfywiad bywyd Cymraeg ein bro ac hyd y gwela i, mae iddo swyddogaeth driphlyg.

Papurau brŵydd eraill sy'n dal i fod bwysicaf i'r mwyafrif ohonom, ond bydd **Tafod Elái** yn gynorthwy i ni ymsefydlu'n llwyddiannus yn ein bro fabwysiedig; nid newydd ddyfodiaid fydd ein plant - hwn fydd eu cynefin a'u genedigol wlad.

Gwelwyd datblygiadau cyffrous ym myd addysg Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwetha. Fy ngobaith i yw gweld y papur yn cyfannu bywyd yr ysgolion gyda bywyd diwylliannol Cymry Cymraeg y fro a thrwy wneud hyn, uno'r cenedlaethau.

Yn ogystal, bydd y papur yn fodd i sbarduno ac ysbrydoli digwyddiadau drwy ddwyn sylw haeddiannol i'r gweithgareddau, heb son am herio a rhoi cyfeiriad i fentrau newydd yn y dyfodol.

Felly hir oes i **Tafod Elái**, gan obeithio y gwnaiff gyfoethogi ar bob lefel.

DAFYDD MORSE, TONTEG

Anos yw gwaith golygydd papur bro na gwaith golygydd y "Western Mail". "Pam?", meddech chwi. Am y rhesymau canlynol meddaf i.

Rhaid i'r golygydd fedru dethol newyddion a fydd o bwys i'w gyd-frodorion a diwallu eu hamrywiol chwaethau. Rhaid i arddull papur bro fod yn un cartrefol, ac nid yn un amhersonol fel arddull y papurau dyddiol, a'u marwolaethau a'u damweiniau di-ri. Edwyn pob un darllenydd, darllenwyr eraill ac o ganlyniad fe gryfha papur bro y gymdeithas trwy wneud y bobl yn fwy parod i gymryd diddordeb yn ei gilydd. O brofiad â phapurau bro eraill, sylweddolais rod hen luniau o ddarllenwyr a lleoedd yn ychwanegu at yr hwyl a'r llwyddiant. Diddanu eu cyd-ddarllenwyr ddylai y cyfranwyr wneud. Rhoi blas y "To be Continued" "Dallasaidd" i'r papur yn lle diddanu eu hunain. Hir fydd oes papur bro os gwneir hyn.

Digwyddiadur

Gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau yr hoffech eu hysbysebu yn y Digwyddiadur i'ch colofnwyr lleol, os gwelwch yn dda. Neu ffoniwch (0443) 228196.

Medi 28
Clwb y Bont, Pontypridd: Disgo'r Ysgolion Uwchradd

Medi 30
Nos Lun, Medi 30 am 7 o'r gloch yn Festri Tabernacl Efail Isaf darlith gyntaf y tymor ar "Ddramau Saunders Lewis" Cefin Cambell, Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Hydref 1
Clwb y Bont: Noson i ddysgwyr - Cawl a chân.

Hydref 2
Am 7.30 p.m. Cyfarfod o Gymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r cylch yn y Clwb Rygbi. Gŵr gwadd: Roy Noble.

Hydref 5
Clwb y Bont: Padrig Sicard - offerynnwr a chanwr gwerin. **ac hefyd**
8.00 - 12.00 p.m. Neuadd Bentref Ffynnon Taf - Twmpath Dawns gyda "Cadlan". Elw tuag at y Cylch Meithrin.

Hydref 10
Merched y Wawr, cangen Y Garth yn Neuadd Bentref Pentyrch am 8.00 p.m. Sgwrs gan Marc Philips, Trefnydd yr Urdd ym Morgannwg Ganol.

Hydref 13
Ail agor Capel y Tabernacl, Efail Isaf ar ôl yr atgweirio mawr.
10.30a.m.: Agoriad Swyddogol ac oedfa arbennig
2.30p.m.: Gymanfa'r Plant. Arweinydd, Edward Morris Jones.
8.00p.m.: Gymanfa'r **Tafod**. Llywydd Geraint Stanley Jones.

Hydref 17
Clwb y Dwrlyn, Pentyrch, "Brethyn Cartref".

Hydref 19
Clwb y Bont: Dawns 50au/60au

Hydref 21
Am 8 o'r gloch Clwb Ifor Bach Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd, "Byd y Baban Cyfoes" Dr. Dewi Evans ysbyty Treforus.

Hydref 23
Theatr Bara Caws, Ysgol Gynradd Y Creigiau am 7.30p.m. Tocynnau £2.

LLANILLTUD FAERDRE

Gohebydd lleol: Linda Sidgwick

Cynhelir grŵp Mam a'i phram bob prynhawn dydd Iau am 2 o'r gloch yn Neuadd Dowlais, Crown Hill. Mae croeso i famau di-Gymraeg sydd yn dymuno anfon eu plant i'r Ysgol Feithrin ymuno â'r grwp. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Linda Sidgwick - Newtown Llantwit 204959

ADFERIAD BUAN

Dymuniadau gorau staff y **Tafod** i ANNA JONES, ein Golygydd Erthyglau hynod o ddiwyd, sydd yn gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Brysia'n ôl, Anna!

FFYNNON TÂF A GWAELOD

Gohebydd lleol: Alwyn Jones

Y CYLCH MEITHRIN

Daeth pennod arall i ben yn hanes Cylch Meithrin Ffynnon Tâf pan gyhoeddodd yr athrawes, NANNETTE GRIFFITHS (o Donteg) ei bod wedi derbyn swydd yn Ysgol Gymraeg newydd Beddau. Bu Nannette yn ffyddlon iawn i'r Cylch Meithrin yn ystod y pum mlynedd a hanner y bu yno, ac fe fydd colled ar ei hôl.

Hefyd, bu dathlu mawr yn y pentrefi yn ystod y misoedd diwethaf, gyda'r Cylch Meithrin yn cyrraedd ei benblwydd yn ddeunaw oed. Mae'n derbyn 20 o blant bob tymor erbyn hyn, ac mae'r rhestr aros, fel yr afon, yn gorlifo o dro i dro. ANGHARAD JONES o Ffynnon Tâf ydy'r athrawes newydd, gyda PAT TAYLOR, o Nantgarw yn dal i gynorthwyo.

Yn olaf, cofiwch am y Twmpath blynyddol yn y Neuadd Bentref nos Sadwrn, Hydref y 5ed, gyda'r holl elw tuag at gynnal y Cylch Meithrin.

MAM A'I PHLENTYN

Bydd Cylch Mam a'i phlentyn Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth yn cwrdd bob prynhawn Gwener yn ystod tymor yr ysgol, o 2.00 hyd 4.00 o'r gloch yn festri Bethlehem.

TONYREFAIL A GILFACH GOCH

Gohebydd lleol: Betsi Griffiths

MISS MAIR THOMAS

Dymuniadau gorau i Miss Mair Thomas, Wood St., Gilfach Goch ar ei hymddeoliad o fod yn Ddirprwy Brifathrawes Ysgol Gyfun Y Pant. Bu Mair yn yr ysgol er pan agorwyd hi, a bu'n gefn i'r Gymraeg yno ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn iddi flynyddoedd lawer o ddedwyddwch a hapusrwydd.

AM RAS

Ymddangosodd plant Ysgol Gymraeg Tonyrefail ar y rhaglen **Am Ras** ar S4C ddydd Llun, 5 Awst. Roeddent yn cymryd rhan gydag ysgolion Gwaelod y Garth a Chwmbran. Bu plant Tonyrefail yn llwyddiannus iawn, ac enillon nhw'r gystadleuaeth. Cawsant wobrau iddynt eu hunain a £100 i'r ysgol hefyd.

Ysgol Foduro

CLAYTON JONES

* Hyfforddwyr a Hyfforddwragedd o safon yr Adran Drafnidiaeth
* Ceir gyda rheolaeth ddwbl
* Telerau arbennig am gwrs llawn ac i fyfyrwyr
* Adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd bob gwers

PONTYPRIDD 400563
ABERDAR 878737
MERTHYR 79988

O Gornel y Glêr

Guto Hir

Bu gan farddoniaeth bwrpas cymdeithasol ar hyd yr oesau yng Nghymru, a hynny ar lefel uchaf beirdd y tywysogion a'r llys bob cam i lawr i'r rhigymwyr oedd yn cofio ac yn cofnodi troeon trwstan a digwyddiadau lleol. Fe welir penillion o'r math olaf yma mewn rhai papurau wythnosol o hyd, megis **Y Cyfnod a'r Herald Cymraeg** - cofiaf i mi fod, fy hun, yn wrthrych cerdd enllibus o'r fath yn **County Echo**, Abergwaun, un tro.

Beth bynnag, mewn colofn fel hon, carwn weld rhywfaint o barhâd i'r traddodiad clodwiw hwn. Felly, os oes cydnabod yn dyweddîo, wedi cael ychwanegiad i'r teulu, yn un-ar-hugain oed neu wedi gwneud yn dda yn yr arholiadau Lefel "O"/"A", beth am limeric neu driban o gyfarchiad? Mae'n rhatach na hysbyseb yn **The Times** a bydd gwrthrych y cyfarchiad yn ei werthfawrogi'n llawer mwy.

LLYSENWAU

Mae'r arfer o lysenwi pobol yn gryf mewn ardaloedd glofaol. Y rheswm trosto, yn ôl J.T. Jones, Rhiwabon, oedd natur beryglus y lle'r oedd glowyr yn gweithio ynddo a'r ffaith fod Cymry mor hoff o enwau fel John Jones, David Davies ag ati. Petaech yn gweithio mewn pwll glo a'r tô yn dechrau gwegian, fyddech chi ddim gwell o weiddi "Thomas Thomas, dere o 'na yn glou, ma'r tô'n dod lawr" gan na fydde neb yn gwybod pa Domas Thomas oedd mewn perygl - fe fydde yna bump Thomas Thomas o leia yn gweithio o fewn clyw. Ond fe fyddai "Twm Tip" neu "Twm Sara" yn nodi'n glir pa un o'r llu Tomosiaid oedd mewn perygl einioes. Beth bynnag, diolch yn fawr i Barrie Todd o Barc Prospect, Pontypridd, am y penillion hyn sy'n cofnodi llu o lysenwau o ardal Ystalyfera. Prysuraf i nodi nad ef yw'r awdur rhag i rywun ddwyn achos o enllib yn ei erbyn, ond nid yw'r cyfraniad fymryn llai gwerthfawr oherwydd hynny. Mi fyddaf yn falch bob amser o dderbyn cyfraniadau nad ydynt o reidrwydd yn weithiau gwreiddiol y sawl a'u hanfonodd.

LLYSENWAU YSTALYFERA

'Roedd Ystalyfera 'slawer dydd
Yn enwog am lysenwi,
Tric i adnabod pwy oedd pwy
Er mwyn osgoi cymysgu.
Ac felly dyma nifer fach
O enwau dewisedig -
Ond er mwyn popeth byddwch gall
Neu bydd 'ma le cythreulig.

Yn gyntaf, dynion enwyd gynt
Ar ôl rhyw wraig o'r teulu;
Phil Mari Wil, Twm Betsi Fach,
Phil Ester, Dai Bach Sali,
Dic Motryb Mari, Wil Mari Frân,
Twm Sara, Harri Phebe,
George Mary Ann a John Mari George,
Bill Shwnet a Dai Gwenni.

O'r wlad daeth rhai, ac enwyd hwy
Gan bawb i gofio hynny,
Dafydd y Gwas a Twm Bach Jag,
Wil Sefn a Bil Cydweli,
Wil Llandybie, a John Bach o'r Wlad,
Dai Kent a Twm Llanilltud,
John Porthyrhyd a Jac San Clêr,
Aberlash a Dic Brynhyfryd.

Fe Enwyd rhai ar ôl ei tai,
'Na John a George Tŷ Copyn
'Na Moc Tŷ Gwyrdd a Jac Tô Cawn,
Dai Shanti a Twm Starfin.
'Na Dai Ben Steps a Twm Tŷ Talc,
Twm Shop a Georgie Sginon,
Dai Jones Ca'r Drain a Wil Pen Fôl
A Dafydd Lewis Steshon.

Wel Dyma'r cwpwl olaf nawr,
Fe ddont i ben yn union -
Wil Bach Brother a Jim Jim
Y Walch a Gwilym Canon,
Wil Shifigwr, Topper Brown,
Jim Bo a Williams Allan,
Rhys Cwrcyn Carcus a Twm Pwnsh
Dai Cwt a Shoni Satan.

(Cyfraniadau, os gwelwch yn dda, i Guto Hir, 17 Heol Graig Wen, Pontypridd, Morgannwg Ganol).

Diolch

Diolch i Cennard Davies a Bwrdd Golygyddol y Gloran am eu cymorth i ddechrau TAFOD-ELÁI.

YNYS-Y-BWL

Gohebydd lleol: Sali Owens

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Julian Ryan, disgybl yn Ysgol Rhydfelen, sydd wedi cael pump lefel O yn yr arholiadau. Hefyd Mrs. Christine Jones, Cae Cam, Rock Terrace, dysgwr a mam i ddau o blant sydd wedi cael ei lefel O gyda gradd A yn y Cymraeg.

PEN-BLWYDD

Dathlodd Mrs. A.M. Davies a Mrs. Hannah Griffiths eu pen-blwydd yn 90oed yn ystod yr haf.

RHAGLEN Y GAEAF

Mae gweithgareddau'r Gaeaf wedi dechrau sef:- Cyfarfod y Chwiorydd (Nos Lun); Cwrdd Defosiynol (Nos Fawrth); Dosbarth Beiblaidd (Nos Iau) sydd yn cael ei gynnal mewn gwahanol gartrefi.

Ar Nos Wener, bob wythnos, bydd y Ganolfan leuenctid Efengylaidd yn cyfarfod. Mae'n cael ei rhedeg gan Bwyllgor Undebol Efengylaidd sy'n cynnwys dau gynrychiolydd o bob Eglwys. Plant dros ddeg oed sy'n mynychu'r ganolfan, ac unrhyw un a hoffai helpu. Hyd yn hyn y mae deugain o aelodau. Bydd yn ail ddechrau yn y dyfodol agos.

CANMLWYDDIANT

Y mae aelodau Capel y Tabernacl yn paratoi yn ddiwyd i ddathlu canmlwyddiant yr achos y mis nesaf.

ADFERIAD

Y mae Mr. Morgan Owen (tad Mrs. Janet MacDonald, aelod o Gôr Godre'r Garth) yn gwella'n dawel yn yr ysbyty. Hefyd Mrs. Bessie Hughes sydd wedi dychwelyd gyda'i gŵr o'r gogledd ar ôl aros gyda'u merch a chael gofal tyner gyda hi. Mae'r ddau dros wyth deg oed.

Mae Mrs. Edith Rees wedi cyrraedd adre, ac mae Mrs. Galick ar fin dychwelyd. Gobeithiwn y byddant yn cael gwell iechyd yn y dyfodol.

Nofel newydd afaelgar Eirwen Gwynn:
HON £2.45

O gwmpas eglwysi mwyaf diddorol Cymru gyda Mari Ellis a Meg Dafydd:
EGLWYSI CYMRU £2.45

Caneuon i blant gan Falyri Jenkins:
CANEUON Y CREADURIAID £1.95

Y diweddaraf yng Nghyfres Rwdlan gan Angharad Tomos:
5. Y LLIPRYN LLWYD 95c

Nofel wych, ddychanol Tim Saunders:
CLIFF PREIS— GOHEBYDD ARBENNIG £2.45

Dysgwch y gêm gyda Tom Marks:
Dewch i Chwarae-CRICED £1.85

Llyfrau lliwio creadigol, gwahanol:
LLYFRAU IANTO, 1 & 2 £1.65 yr un

Arolwg o hanes a chyfiwr y chwe gwlad Celtaidd gan Peter Berresford Ellis:
THE CELTIC REVOLUTION £4.95

LLYFR STAMPIAU'R LOLFA £4.40

Casét 'Welcome to Welsh' £3.45

a'r rhecsyn blynyddol erchyll, gwarthus:
LOL! 65c

Ein catalog newydd 48-tudalen ar gael nawr

Y Lolfa Cyf.
TALYBONT DYFED
SY24 5HE ffôn 097086/304

Dymuniadau Gorau i'r Papur gan

R. MILES RICHARDS, LL.B.

Cyfreithiwr ac Ardystiwr Llwon

Main Road, Church Village,

Pontypridd.

Morgannwg Ganol. CF38 1RN

Ffôn:
Newtown Llantwit (0443) 202237.

TONYSGUBORIAU

Cydymdeimlwn â Mrs. MUMFORD, Danygraig, Talbot Green ar ei phrofedigaeth o golli ei gŵr yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Steve a Margaret White a'r bychan Gethin yn eu cartref newydd yn Forest Hills, Talbot Green.

MEISGIN

gohebydd lleol: Meredid Morris

Llawenydd yw cael rhoddi hanes llwyddiant i'r pobl ifanc y pentref. Bu Non Evans, sy'n byw yn ffordd Dewi Sant, yn llwyddiannus yn ei arholiadau radiograffaeth a bellach mae hi'n gweithio yn Ysbyty Cyffredinol Penybont-ar-Ogwr. Bydd yn symud i weithio i'r ysbyty newydd pan y'i hagorir. Addysgwyd Non yn Wrecsam, Ysgol Gyfun Rhydfelen ac Ysgol Radiograffaeth Morgannwg Ganol yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg, Pentre'r Eglwys.

Graddiodd Hywel, ei brawd, mewn Ffiseg ac Ymarfer Corff o Brifysgol Lerpwl a bydd yn dychwelyd yn yr hydref i gychwyn ar ei flwyddyn o ymarfer dysgu. Cafodd Hywel ei addysg yn Wrecsam, Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Gyfun Llanharri.

Enillodd Catrin Morris radd er anrhydedd mewn Cerddoriaeth a Chymraeg o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Bydd hithau'n dychwelyd i Aberystwyth i ddilyn cwrs ymarfer dysgu yn yr hydref a chyn hynny bydd yn treulio pythefnos yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant. Bu Catrin yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Gyfun Llanhari.

JENKINS "BOISI" THOMAS

Bu farw'r olaf o'r Cymry Cymraeg brodorol a aned ac a faged yn y pentref. Roedd Jenkin Thomas yn ddwy a phedwar ugain mlwydd oed. Bydd teyrnged lawn iddo yn y rhifyn nesaf o'r **Tafod**

Y CREIGIAU

YSGOL GYNRADD Y CREIGIAU

Byddai Mr. Peter Evans, Prifathro Ysgol Gynradd y Creigiau yn hoffi clywed gan unrhyw un, o unrhyw safon, sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg. Dylent gysylltu â Mr. Evans drwy ffonio Pentyrch 891045.

YR EFAIL ISAF

Gohebydd lleol: Loreen Williams

GRADDIO

Llongyfarchiadau cynnes i Geraint Rees ar ennill ei radd yng Nghol-eg Rhydychen. Mae'n braf iawn deall fod Geraint wedi gwella'n llwyr ar ôl iddo ddych-welyd yn fregus iawn ei iechyd o Kenya ar ôl gwneud blwyddyn o wasanaeth gwirfoddol yno o dan amgylchiadau echrydus. Dymunwn yn dda iddo eleni eto yn y Coleg ym Mryste.

LEFEL "A"

Llongyfarchiadau hefyd i Karen Griffiths, Menna Rees, Gwion Rees a Marc Thomas ar eu llwyddiant yn yr Arholiadau Lefel A. Mae'r pedwar yn ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Llan-hari. Dymunwn yn dda i Karen Griffiths a Menna Rees, y ddwy yn mynd i astudio yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth a Gwion Rees sy'n mynd i Goleg y Brif-ysgol Abertawe.

LEFEL "O"

Bu amryw o ddisgyblion Ysgol Llanhari sy'n byw yn y pentref yn llwyddiannus iawn yn yr Arholiad Lefel O hefyd. Llong-yfarchion i Christopher Griffiths, Sian Henry, Richard John, Rhodri Samuel, Rhian Watkins a Gareth Williams.

PRIODAS ARIAN

Dymunwn yn dda i'r Parchedig a Mrs. Eirian Rees ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD

Ar y 22ain o Awst roedd un o'n pentrefwyr mwyaf poblogaidd yn yr Efail Isaf yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg a phedwar ugain oed. Mae Mrs. Elvira Davies, neu "Anti Vi" fel mae pawb yn ei hadnabod yn byw ergyd carreg o gapel y Taber-nacl.

Derbyniodd Anti Vi dros gant o gardiau pen-blwydd ac roedd ei hystafell ffrynt fel gardd flodau ar fore ei phen-blwydd.

Daeth i'r drws i groesawu pawb mor fywiog a heini ag erioed. Beth yw'r gyfrinach Anti Vi?

(Gweler portread o Anti Vi ar dudalen arall).

Fe fydd Capel y Tabernacl yn ail-agor y drysau ar ddydd Sul, Hydref 13. Croeso i bawb i'r Gwasanaeth Diolchgarwch.

LLANTRISANT

MAM A'I PHLENTYN

Mae Cylch Mam a'i phlentyn Ardal Llantrisant yn cwrdd yn y Neuadd Gymdeithasol yn Llan-trisant bob prynhawn Llun rhwng 1.30p.m. a 3.30p.m. Mae'r grŵp yng ofal Mrs. Llinos Swain ac os am fwy o fanylion ffon-iwch Mrs Meinir Rees - Llan-trisant 228788 - croeso cynnes.

DYSGU GYMRAEG

Gobeithir dechrau dosbarth Cym-raeg ym mis Medi yn Llantrisant - manylion oddi wrth Llinos Swain.

SYMUD TŶ

Mae Huw a Helen Davies, sy'n dysgu yn Ysgol Gyfun Llanhari, wedi symud tŷ yn ystod gwyliau'r haf, ac wedi ymgartrefu ar stâd Maes-yr-haul, Llantrisant. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

CYMDEITHAS RHIENI

Cynhelir noson gymdeithasol gan Gymdeithas Rhieni Ysgol Feithrin Llantrisant yng Nghanol-fan y Gymuned, Tonysguboriau. Ysgrifennydd y Gymdeithas yw Hugh Rees (228788)

Y PEDWARAWD TELYNAU

Mae'r pedair ohonom wedi bod yn chwarae fel grŵp ers rhyw ddwy flynedd bellach ac wedi cael cryn lwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwetha'.

Cawsom gyntaf ar y grŵp offer-ynnol yng Ngŵyl Gerdd Dant Aberystwyth, cyntaf yn 'steddfod Caerdydd. Yn ddiweddar buom yn perfformio yng Ngŵyl cerdd-oriaeth i'r Ifanc (Festival of Music for Youth) a gynhaliwyd yn Neuadd Albert a Neuadd y Frenhines Elizabeth yn Llundain. Mwynheuodd y bedair ohonom y trip i Lundain a'r profiad o berfformio yn y "Queen Elizabeth Hall". Ym mis Mawrth fe'n gwahoddwyd i chwarae yn Neuadd Dewi Sant, ac hefyd fe fuom yn chwarae mewn nifer o gyngherddau yn yr ardal (Merched y Wawr, Cymdeithasau Cymraeg, ag ati).

Byddwn yn ymarfer yn yr ysgol ac hefyd ar brynhawn dydd Sul, pan fo'n bosibl. Miss Gillian Green sy'n ein hyfforddi. Mae'r bedair ohonom yn mynychu Ysgol Gyfun Llanhari. Mae Ann Price o Mynydd Cenffig a Rebecca Jones o Benybont yn Nosbarth 5 a Manon Morris a minnau (Carys Swain) o Lan-trisant yn Nosbarth Pedwar. Yn ogystal â chwarae mewn pedwarawd, mae'r bedair ohonom yn chwarae'n unigol ac yn aml rydym yn gorfod cystadlu yn erbyn ein gilydd!

PENTYRCH

LLONGYFARCHIADAU

Mae'n braf cael llongyfarch plant y pentref a fu'n llwyddian-nus yn arholiadau'r cyd-Bwyllgor eleni:-

Lefel "O" -

Hywel Williams

TAU

Ceri Ann Lewis, Tara Roberts

Lefel "A"

Dafydd Thomas, Paul Christopher, Lisa Russell, Bethan Roberts, Hilary Rendle.

Llongyfarchiadau calonnog iddyn nhw i gyd, a'n dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL

Llongyfarchiadau i Mrs. Nan Griffiths, Llwyncelyn ar ddod yn gyntaf yn Eisteddfod Gened-laethol Cymru, Y Rhyl a'r cyffin-iau am lunio "Arweinlyfr i Gym-ru". Bu raid i Nan ymdrin yn gyflawn ag un sir, a rhoi braslun o weddill y llyfr, ar gyfer y gystadleuaeth. Edrychwn ymlaen at weld y llyfr cyfan yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

Y GOLOFN BOP

Rhyddhau y record sengl "Dwylo Dros Y Môr" er budd y newynog yn Ethiopia oedd un o'r digwyddiadau mwyaf cyffrous yn hanes y byd roc Cymraeg. Un o'r unawdwyr ar y record arbennig yma yw MARTYN GERAINT sydd hefyd â'i gartref yn nalgylch ein papur bro newydd. Mae Martyn yn gyn-ddisgybl ysgolion Pont-Sion-Norton a Rhydfelen ond bellach mae'n fyfyriwr blwyddyn olaf yng Ngholeg Addysg Cyncoed, Caerdydd.

Dechreuodd Martyn ymddiddori ym myd cerddoriaeth yn gynnar iawn yn ei lencyndod a chafodd wersi piano pan oedd yn saith mlwydd oed. Erbyn hyn, mae ganddo brofiad helaeth o ganu a chwarae'r "synths" gyda nifer o grwpiau ar lwyfannau led-led Cymru. Ymddangosodd am y tro cyntaf gyda grŵp roc pan oedd yn ddisgybl yn ysgol Gyfun Rhydfelen a'r enw a roddwyd ar y grwp hwnnw oedd "Ameoba". Yna ar ôl iddo fynd i'r coleg daeth yn aelod gwerthfawr o'r grwp roc adnabyddus sef "Treiglad Pherffaith". Ond y grŵp sy'n mynd â'i fryd erbyn heddiw yw'r "Ffenestri" gyda Geraint James.

Dyddiad geni:
30 Mehefin, 1963

Man geni:
Wdig ger Abergwaun

Dylanwadau:
Billy Joel, Barry Manilow, Delwyn Sion ac Endaf Emlyn

Diddordebau:
Cerddoriaeth, cwrdd a phobl, osgoi cadw'n heini a gwylio'r teledu

Hoff lyfr:
Tom Sawyer

Uchelgais:
Cael ein record ar frig "Deg Ucha'r Cymro"

Ym mha le y byddet yn hoffi ymgartrefu:
Rhywle [illegible] Gogledd

Fe fydd "Ffenestri" yn y[illegible]ddangos yng Nghlwb-y-bont, Pontypridd ar 25 Hydref. Dyma gyfle i chi hefyd i brynu eu record ddiweddaraf sef "Y Tymhorau". Dewch yn llu!

Blwyddyn yr Ifanc
gan ELEN MILES

Dyma hi o'r diwedd, blwyddyn y bu hir aros amdani gennym ni'r ieuenctid. Er yr holl baratoi a threfnu a ddylai fod yn digwydd ar ein cyfer, poeni rwyf i mai blwyddyn debyg i unrhyw un arall fu hi. Yn arbennig i'r ieuenctid yma, yn nalgylch Pontypridd. Wedi'r cwbl, ar wahan i ychydig, pwy sydd hyd yn oed yn gwybod mai blwyddyn ieuenctid yw' 1985? Dydw'i ddim yn beio neb yn uniongyrchol ond fyddai hysbysebu mewn papurau newydd heb wneud niwed.

Ym Mhontypridd mae diweithdra'n uchel ymhlith y rhai sydd newydd adael ysgol. Yn aml, yr unig ddewis sydd gan y rhain yw mynd ar gynllun gwaith y llywodraeth, sy'n para blwyddyn. Wedi hynny, maent allan o waith unwaith eto. Heb enwi unrhyw un, mae nifer o'r siopau yma yn cymryd rhai ifanc i weithio yn eu cynllun, am ychydig fisoedd. Mae eu cyflog yn fach iawn ac unwaith iddynt ennill y profiad, mae'n rhaid iddynt adael i wneud lle i'r rhai newydd. Wrth gwrs, mae'n rhaid i hyn ddigwydd weithiau, ond dylid cael rhyw fath o reol, neu mae'r gweithfeydd yn cymryd mantais. Efallai gellid rhoi cyflog llawn unwaith iddynt lwyddo yn arholiad y cynllun gwaith.

Peth arall sydd ddim yn cael ei bwysleisio ddigon yw clybiau ieuenctid. Byw yn Graigwen ydw i sy'n agos i dref Pontypridd. Hyd y gwn i, does yr un clwb ieuenctid o gwmpas fan hyn. Flynyddoedd yn ôl, mae'n wir cynhaliwyd un yn yr "Y.M.C.A." lleol ond erbyn hyn dim ond gwersi dawnsio i blant bach sydd yno. Byddwn i fy hun yn fodlon rhoi cymorth i gynnal clwb. Am nad oes unrhyw le creddigol fel yma, mae'r ieuenctid yn troi at y tafarndai fel mannau cyfarfod.

Oed sy'n dipyn o broblem yw tua 14 hyd at 17. Gwell yw hi ar y rhai sy'n ddeunaw, neu sy'n edrych yn ddeunaw. Os ydynt am fynd allan yn y nos gallant gael mynediad i ddisgo, tafarn, clwb nos ac unrhyw adloniant arall sydd ar gael. Mae'n ddrwg ar yr oed anodd yn y cylch yma. Gwella mae pethau yn yr Haf, eto beicio ac yn y blaen.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy nheimladau am ganolfan chwaraeon. Does gennym ni'r un yn Mhontypridd ei hun. Cymera dros hanner awr i gyrraedd yr agosaf, sef Abercynon. Pan gafodd y cynghorau ddewis o ganolfan yn yr ardal yma dewiswyd Llantrisant (lle mae un yn barod) yn hytrach na Phontypridd. Mae'n warthus mai dim ond pwll nofio bach awyr-agored sy'n llawn-dop o rai ifanc yn yr haf, sydd gennym ni. I ddweud y gwir, yr haf yw'r amser gorau i ieuenctid Pontypridd. Gwelir canoedd yn heidio i'r cwrt tenis ym mharc Ynysangharad yn ystod y cyfnod yma. Gan fod y rhan fwyaf ohonom yn ymddiddori mewn chwaraeon, dylid ceisio gwella'r sefyllfa'n y maes yma.

Hoffwn ddymuno llwyddiant i holl ieuenctid Cymru am weddill y flwyddyn hon. Hefyd rwy'n diolch i drefnwyr Blwyddyn Ieuenctid 1985 ac am gyfle i ysgrifennu am ddyheadau llawer (gobeithio) o ieuenctid Pontypridd.

FFAU'R PLANT

Does neb ond PLANT i ddarllen y golofn hon.

1. Sawl pentref neu dref yr ardal Tâf-Elái allwch chi ddod o hyd iddyn nhw yn y bocs geiriau hwn?

Tybed ydy'r enwau hyn yn y bocs.?

PWY SY'N GWYBOD

1. Beth yw enwau'r tri sant yn Llantrisant?

2. Pwy gododd yr hen bont ym Mhontypridd?

3. Pa ddyn enwog sydd wedi ei gladdu ym mynwent Salem Tonteg?

4. Beth oedd enw'r gantores a'r gyfansoddwraig enwog fu'n byw yn Nhrefforest?

5. Pa ganwr Pop Cymraeg sy'n byw ym Montypridd ac a fu yn ysgol Pont Sion Norton?

6. Mae un o bobl y Cwm yn byw ar y Comin ym Mhontypridd. Pwy yw e?

7. Mae cof-golofn yn Llantrisant i .....

8. Mae cof-golofn ym mharc Ynys Angharad i .....

P	DD	C	L	W	B	Y	S	Y	N	Y	O	P
E	G	I	L	F	A	CH	G	O	CH	L	T	B
N	W	L	W	R	A	G	T	N	A	N	N	DD
T	P	F	O	H	RH	I	R	A	H	N	A	LL
R	FF	Y	N	N	O	N	T	A	F	O	S	E
E	R	N	RH	O	T	W	E	U	I	S	I	G
R	U	Y	N	E	L	E	F	D	Y	RH	R	E
E	A	DD	LL	A	N	I	LL	T	U	D	T	T
G	DD	T	M	CH	R	Y	T	N	E	P	N	N
L	E	E	C	A	S	T	E	LL	A	U	A	O
W	B	C	R	E	I	G	I	A	U	A	LL	T
Y	DD	I	R	P	Y	T	N	O	P	O	P	S
S	O	L	I	A	F	E	R	Y	N	O	T	A

Ffynnon Tâf; Nantgarw;
Pontypridd; Rhydfelen;
Llanilltud; Tonteg
Beddau; Pentre'r Eglwys;
Cilfynydd; Ynysybwl;
Tonyrefail; Pentyrch;
Creigiau; Llantrisant;
Castellau; Llanhari.

Cnoc, cnoc.
Pwy sy 'na?
Sgini
Sgini pwy?
Sgini'm syniad!

Beth yw'r ffordd orau i ddal cwningen?
Cuddio y tu ôl i wal a gwneud swn letusen!

2. Mae enwau Cymraeg ar y pyncs hyn!
Beth ydy enwau'r pyncs?

Nodion o fyd nofio

Enillwyd Tarian Her Cwm Cynon am y drydedd flwyddyn yn olynol gan dîm nofio Ysgol Gynradd Gymraeg, Pont Sion Norton, Pontypridd. Cafodd fuddugoliaeth hawdd dros ryw ddwsin o ysgolion cynradd, y mwyafrif ohonynt o Gwm Cynon.

Cafodd bechgyn Pont Sion Norton brynhawn arbennig o llwyddiannus gyda'r tîm cyfnewid (Paul Magrath, Stuart Fry, Mark White ac Aled Wyn Davies) yn ennill ac Aled Wyn Davies yn drydydd yn y dull cefn. Ond gan un arall o fechgyn yr ysgol, Trystan Griffiths, y cafwyd y perfformiad mwyaf disglair. Enillodd y rasys dull rhydd, dull broga a'r dull pili-pala, gan dorri record y gala yn y ddwy gyntaf.

Liandra Hunt o Pont Sion Norton, yn siwr, oedd y lleiaf o bawb yn cystadlu yn y gala ond rhoddodd y bwten fach wres traed i bawb gan ddod yn ail yn y ras pili-pala i ferched (mewn 25.4 eiliad) ac yn bedwerydd yn y dull broga (28.2 eiliad). Bydd Liandra yn yr ysgol gynradd y flwyddyn nesaf eto, felly siawns am welliant y tro nesaf. Yn y ras i ferch daeth Samantha Price o Bont Sion Norton yn drydydd ac yn y dull rhydd daeth Estelle Jones o'r un ysgol yn bedwerydd.

I goroni'r cwbl daeth tîm cyfnewid y merched sef Sara Hemmings, Liandra Hunt, Estelle Jones ac Emma Jane Edwards, yn drydydd - golygai hyn fod gan dîm Pont Sion Norton nofiwr yn ffeinal pob ras, tipyn o gamp!

Nofiwr arall o Bontypridd a gafodd brynhawn prysur oedd Gerwyn Davies o Ysgol Coed Pen Maen a ddaeth yn drydydd yn y rasys dull rhydd, dull broga a pili-pala.

Llongyfarchiadau i Rebecca Jenkins, Jonathan Phipps, Helen Mordecai a Trystan Griffiths ar eu dewis i dîm nofio De Morgannwg sy'n cymryd rhan yng nghystadlaethau rhanbarthol Cymdeithas Nofio Amatur Cymru ar Fedi 14.

CWRS HAF RHYDFELEN

Pwy fyddai'n dewis treulio wythnos o wyliau mewn ysgol? Wel, cwestiwn digon teg. Ond dyna sy wedi digwydd yn Rhydfelen am y deng mlynedd diwetha. Ym 1975 dechreuodd y Cwrs Hâf yn gyntaf gyda rhyw bumdeg o wynebau petrusgar plant 11 mlwydd oed yn cyrraedd yr ysgol. Erbyn heddiw mae nifer y plant sy'n dod i'r Cwrs Hâf wedi cynyddu'n aruthrol. Eleni daeth 157 o blant bach y dalgylch i dreulio wythnos yn yr ysgol.

Dim wythnos o waith oedd y Cwrs Hâf ond wythnos o 'joio' mewn awyrgylch hollol Gymreig. Roedd digon o hwyl a sbri i'w gael - disgos, Helfa Drysor, Carnifal, teithiau cerdded (mae'r pothelli gen i o hyd!), taith i Sain Ffagan ac ar ddiwedd yr wythnos Eisteddfod Fawreddog y Cwrs Hâf gyda Gorsedd fwy nag un yr Eisteddfod Genedlaethol 'da'r Archdderwydd John Owen.

Roedd y Cwrs Hâf yn gyfle i'r disgyblion ddod i adnabod rhai o'u hathrawon a'u swyddogion a gwneud mis Medi yn rhywbeth i edrych ymlaen ato yn hytrach na'i ofni. Ond yn bwysicach fyth fe ddaeth yr iaith Gymraeg yn rhan naturiol o fywydau Dosbarth 1. Ac roedd un neu ddau yn siarad Cymraeg yn eu cwsg erbyn diwedd yr wythnos.

Nerys Wyn Davies

COLOFNAU'R PENTREFI

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i golofnau'r pentrefi y mis yma. Cysylltwch â'ch colofnwyr lleol os oes gennych unrhyw wybodaeth a fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr y Tafod. Hoffem atgoffa'r colofnwyr hynny y dylai pob cyfraniad gael ei anfon at Glenys M. Roberts, Maes yr Haul, Cross Inn, Llantrisant erbyn dydd Mercher cyntaf pob mis, neu erbyn y chweched dydd o'r mis fan bellaf. Rhif ffôn ar gyfer newyddion hwyr - Llantrisant (0443) 228196.

DIWEDD Y GÂN .....

Rai misoedd yn ôl, agorwyd cronfa i roi'r **Tafod** ar ei draed yn ariannol. Derbyniwyd cyfraniadau o £10 yr un gan nifer mawr o gyfeillion oedd am fod yn perthyn i Garedigion y Papur Bro. Os nad ydych wedi cyfrannu, mae gwahoddiad i chi wneud hynny nawr. Dylid anfon eich sieciau at:-

Colin Williams
"Hafod"
136 Parc y fro,
Creigiau.

Byddwn yn cyhoeddi rhestr o'r cyfranwyr yn ystod y misoedd nesaf. Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Cymdeithas Papur Bro Tâf-Elái."

ADRAN EFRYDIAU ALLANOL
COLEG Y BRIFYSGOL
CAERDYDD

DIPLOMA ASTUDIAETHAU
ALLANOL
Y GYMRAEG A'I
LLENYDDIAETH

Cwrs dwy flynedd yn cyfarfod Nos Fawrth a Nos Iau dros 28 wythnos.
Cyfarfod cyntaf, Hydref laf, 1985.
Tal: £30.00 y flwyddyn.
Am fanylion pellach cysyllter â Dr Sioned Davies, Adran Y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.44211,Est 5003.

CROESAIR RHIF I gan TERI



ar Draws

1. Nofel o'r pum degau - "Grym Cas yn y Doc" (6,1,6)

7. Cartref 1 ar draws (7)

9. "..... yn y bore . Am dy ofal cu" (5)

10. Pert ynte Gwenfair! (3)

11. Gwastraff ymdrech oed ei eiriau ef i'w athro. (4,4)

14. Arwyr Ini Iadd yw Montjoy Griffiths a Reardon a dyma'n farddonllyd y gwelwn nhw wrthi (2,4,5)

17. Anifail byr Llywelyn, cyff cymysg a fwytir gan Ffrancod (3,5)

19. Tsieniad am yn ôl at ddim (3)

21. Merch? ia! a'i natur. (5)

22. Y Saesneg wrth fetel gwerthfawr tawdd : Ardudwy, Clwyd a Gwynedd. (7)

23. Gwaith cynnar awdur 1 ar draws o flaen hylif coch fu unwaith yn boeth (3,5,5)

I Lawr

1. Gŵr o Gaernarfon ag offeryn saer byr a Ffrangeg yn ôl wedi sarnu diod poeth. (4,2)

2. Celfydd medrus (7)

3. EL Bandito'n aros am awr fach. (4)

4. Cer yn ôl o drio cofnodi. (8)

5. Mil merch am fwyd yr anialwch (5)

6. (F)rifith 'n faith? (5)

8. Rhyw od ddigwyddiad goruwchnaturiol. (5,4)

12. "Ia .... na ci" meddai'r bachgen. (3)

13. Tei Cen yn digwydd o flaen amser bwyd i ni. (3,3,2)

14. Arwr byr Saunders yn fy nghwmni (1,2)

15. Tori Sam dan eigion ym mhegwn y Gogledd (2,3,2)

16. Lob, duw oedd yn gymeriad yn 1 ar draws (3,3)

17. Â wysg ei ochr, rhyw fol od (5)

18. Dim yn niod Bacchus yn y Mabinbogi (5)

20. Sŵn poen o fewn can disgyrchiant yn y bowlen. (4)

Cynigir £5 o wobr i'r croesair cyntaf cywir i'w agor. Pob ymgais i:-

28 Greenlands Rd.,
Llantrisant,
Morgannwg Ganol.

erbyn Hydref 17 .....

CHRIS DEW

PRO. CLWB GOLFF
PONTYPRIDD

CROESO GWERINOL
GWERSI TACLAU
PRISIAU CYSTADLEUOL

LLANHARAN

Gohebydd lleol: Ann Looms

FFARWELIO

Daeth tua chant o gyfeillion, cydweithwyr, rhieni a chyn-ddisgyblion ynghŷd i dê-parti i ffarwelio a Miss Rhian James, penaeth Uned Gymraeg Ysgol Gynradd Y Dolau. Cynhaliwyd y tê-parti yn yr ysgol ar yr ail ar bymtheg o Orffennaf.

Fel athrawes gyflenwi am gyfnod o chwe wythnos y daeth Miss James gyntaf i'r ysgol, ond arhosodd am dair blynedd ar ddeg, a hynny er budd mawr i'r ysgol.

Roedd ei mam a'i chwaer o Grymych, Dyfed, yn bresennol yn y cyfarfod. Talwyd teyrngedau iddi gan Mr. John Albert Evans, Trefnydd laith Morgannwg Ganol a chan Mr. David Williams, Prifathro Ysgol Y Dolau. Dywedwyd fod yr uned wedi cynyddu'n aruthrol er 1972, o 18 disgybl i tua 200.

Siaradodd y Cynghorydd Jo David yn gynnes am ei chyfraniad i fywyd Llanharan. Bu Rhian yn arwain côr yr ysgol yn mhob capel ac eglwys yn y pentref, ac roedd wedi rhoi mwynhâd i'r Pensiynwyr ar sawl achlysur. Roedd hefyd yn adnabyddus yn yr ardal fel arweinydd cymanfaoedd. Bu ei chyfraniad yn fawr hefyd i eisteddfodau Urdd Gobaith Gymru - cafodd côr yr ysgol lwyddiant fwy nag unwaith yn eisteddfodau'r mudiad.

Cyflwynwyd cadwen o berlau i Rhian gan ei chyd-athrawon, a derbyniodd lun olew gan arlunydd lleol oddi wrth rieni a chyfeillion. Wrth ddiolch, siaradodd am ei blynyddoedd maith a hapus yn Ysgol Y Dolau ac am ei bwriad i ddechrau ar yrfa newydd.

Dymunwn iddi'r gorau, ym mha faes bynnag y bydd yn ei ddewis.

CANTORION CREIGIAU

Bydd y côr yn cwrdd bob nos Sul yn Ysgol Gynradd y Creigiau am 8.00 o'r gloch. Croeso bob amser i aelodau newydd.

CHWARAEON

Bydd tudalen gefn y Tafod yn ymdrin yn fisol â chwaraeon o bob math. Byddwn yn sicrhau bod ein gohebwyr arbennig yn adrodd ar gampau timau ac unigolion yr ardal ym mhob maes posibl.

Nid yw'n fwriad gennym ganolbwyntio ar un gamp ac un gamp yn unig.

Bydd y cynfas chwaraeon a hamdden mor eang â phosib - o loncian i didli-wincs, o godi pwysau i erobics.

Bydd ein gohebwyr yn sicrhau chwarae teg i bob camp ar y dudalen hon. Croesawir unrhyw erthygl neu adroddiad ar ddigwyddiadau o bwys yn yr ardal. Os bydd pencampwr byd yn ein mysg - darllenwyr y Tafod fydd y cyntaf i wybod am hynny.

Bwriadwn hefyd fod o gymorth i'r rhai hynny fydd am wybodaeth am gyfleusterau hamdden yn ein hardal. Hyderwn hefyd y bydd y Tafod yn gyfrwng i hybu gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn Nhâf Elái.

Da yw cyhoeddi yn y rhifyn cyntaf hwn y sefydlir tîm pêldroed Cymraeg yn yr ardal. Gobeithir y dilynir hyn yn fuan a thimau pêl-rwyd neu hoci. Gwych o beth fyddai sefydlu timau gwyddbwyll neu bont a hyrwyddo pencampwriaethau golff, bowls neu gadw'n heini. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi enw enillydd cyntaf Tarian y Tafod i'r golffwr amlycaf neu Gwpan Emlyn i'r tîm dartiau merched disgleiriaf. Beth amdani?

Clwb criced y Dwrlyn

Mae na lawer damcaniaeth am ddarddiad y dywediad "Rhwng gwŷr Pentyrch a'i gilydd. Braf felly ydi cael cyhoeddi wrth drigolion y cwmwd hwn sydd rhwng dwy afon, a'i roi ar flaen eich Tafod, fel petai, mai yng nghyswllt gêm o griced yr ynganwyd y geiriau gyntaf erioed.

Syndod, yn wir syfrdan i'r mwyafrif ohonoch dwi'n siwr fydd deall mai ar iethrau'r Garth ac nid ar wastadeddau Lloegr nac unman arall y dechreuwyd chwarae'r gêm gyntaf erioed.

Gweision fferm dinod ac nid gweision sifil balch a welid yn taro pêl o fryn i bant, gyda stôl odro drithroed yn sylfaen i'r wiced fel y'i gelwir heddiw. Pastwn yn lle bat, a'r arf hwnnw yn handi ar gyfer setlo'r gwrthwynebwyr os byddai pethau'n rhy glos.

Yn wyneb y traddodiad hwnnw yr ail-atgyfodwyd y gêm eleni gan barchus ac anrhydeddus gymdeithas Gymraeg ardal Pentyrch, Creigiau a Gwaelod-y-Garth, sef Clwb-y-Dwrlyn. Braint yn wir oedd cael bod yn llygad dyst i wrhydri a menter y Clwb yn troedio'r maes, megis Gabriel a'i ffrindiau gynt "oll yn eu trowsusau gwynion", wel, heblaw am un neu ddau beth bynnag.

Chwaraewyd pedair gêm yn ystod y tymor, a haleliwia, o ystyried y glaw a gafwyd trwy'r hâf eleni, trwy ddirgel ffyrdd, fe lwyddwyd i gael nos lau sych pob tro.

Yn naturiol ddigon, roedd y tîm wedi bod yn ymarfer tu ôl i ddrysau caeëdig ers misoedd a gwobr am yr ymdrech lew oedd ennill pob un o'r gemau, e. fod ambell un un fwy clós nag a ddymunid.

1. Côr Godre'r Garth
129 rhediad yn erbyn 88-8 (mewn ugain pelawd).
2. Clwb Rygbi Pentyrch
101-8 yn erbyn 80-6
3. Clwb Ifor Bach
103-4 yn erbyn 84-8
4. Clwb Rygbi Cymry Caerdydd
64-8 yn erbyn 61

TÎM PÊL-DROED I GLWB-Y-BONT

Bwriedir sefydlu tîm pêl-droed yng Nghlwb y Bont yn fuan. Anogir ar unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu ag Owain Llywelyn (rhif ffôn 404415). Gobeithir chwarae'r gêm gyntaf ym mis Hydref - bydd prif ohebydd pêl-droed y Tafod yno a cheir adroddiad yn ein rhifyn nesaf.

Cyhoeddir **Tafod-Elái** gan Y BWRDD GOLYGYDDOL ac argreffir gan TUDFUL ARGH PRESS, Pontyclun.